**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol**
**a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2025 am 09:30 drwy Zoom**

**YN BRESENNOL**

Cynrychiolwyr y Cyflogwr:
Dafydd Edwards, Trysorydd

Aelodau'r Cynllun
PST Dawn Docx, Cymdeithas yr Arweinwyr Tân
Geraint Evans, cynrychiolydd y System Dyletswydd ar Alwad
Nick Roberts, Undeb y Brigadau Tân

Ymgynghorwyr
PSTC Helen MacArthur
Martin Morgan, Cronfa Bensiwn Dyfed
Beccy Marfleet, Swyddog Pensiynau (cyrhaeddodd am 10:00)

Yn Bresennol
Iola Llwyd, Cyfieithydd
Lisa Allington, Cynorthwyydd Gweithredol

**1 YMDDIHEURIADAU**

Y Cyng. John Brynmor Hughes, Cynrychiolydd y Cyflogwr
Ruth Bateman, Undeb y Brigadau Tân
Gareth Owens, Clerc yr Awdurdod a Swyddog Monitro
Y Cyng. Gwynfor Owen, Cynrychiolydd y Cyflogwr
Kim Jeal, Arweinydd Technegol Pensiynau Tân
Rheolwr Ardal Paul Kay, Cymdeithas y Swyddogion Tân

1.1 Cynigiwyd a derbyniwyd ymddiheuriadau ar gyfer yr uchod.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

**3 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

3.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2025 fel cofnod gwir a chywir.

## 4 DIWEDDARIAD YNGHYLCH MATERION CYFREITHIOL

4.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur yr adroddiad ynghylch materion cyfreithiol a oedd yn nodi'r gofynion a'r amserlenni statudol sy'n ofynnol yn ôl newidiadau i ddeddfwriaeth Cynllun Pensiwn y Sector Cyhoeddus, ac yn fwy penodol Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân. Cyfeirid at y rhain fel arfer fel ymarferion rhwymedi pensiwn McCloud ac O'Brien (Matthews 2).

4.2 Yn ogystal, rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad ar gynnydd ar y Prosiect Dangosfwrdd Pensiynau, prosiect cenedlaethol sy'n cael ei weithredu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ac a oedd â dyddiad cysylltu ar gyfer cynlluniau yn y Sector Tân ym mis Hydref 2025.

4.3 Nodwyd mai Rheolwr y Cynllun, sef Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), oedd yn gyfrifol am sicrhau bod y tri phrosiect hyn yn cael eu gweithredu mewn modd amserol, tra hefyd yn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei weithredu'n gywir.

4.4 Nodwyd bod oedi o tua wythnos o ran cyhoeddi aelodau gweithredol a gohiriedig gyda'u Datganiad Buddion Blynyddol (ABS) oherwydd mater technegol. Mae'r Gwasanaeth yn asesu'r perthnasedd er mwyn penderfynu a oedd hyn yn gyfystyr â thorri'r rheoliadau ac felly a ddylid ei adrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR). Cytunwyd y dylid ei adrodd er mwyn sicrhau cyflawnrwydd. Nodwyd ymhellach fod nifer fach o ABS a Datganiadau Gwasanaeth Rhwymedïol (RSSs) yn parhau i fod heb eu datrys oherwydd ymholiadau a chymhlethdodau fel ysgariad yn ystod y cyfnod rhwymedi neu benderfyniadau amodol.

4.5 Cynghorwyd yr Aelodau fod y niferoedd ym mharagraff 11 o'r papur yn cyfeirio at nifer y bobl o fewn y garfan honno yn hytrach na'r nifer sy'n weddill.

4.6 Gofynnwyd a oedd cyswllt yn cael ei gynnal gyda'r aelodau hynny nad oeddent wedi derbyn eu Datganiad Gwasanaeth Rhwymedïol (RSS) eto, a chadarnhawyd bod cyfathrebu wedi'i sefydlu ac y byddai'n parhau.

4.7 Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y byddent yn mynd allan i ymgynghori i ymestyn y dyddiad cau o 12 mis arall tan 31 Gorffennaf 2026, mewn perthynas â dyfarniad O'Brien. Cadarnhaodd y PSTC MacArthur, er gwaethaf hyn, y byddai'r gwaith yn parhau i brosesu aelodau cymwys.

4.8 Yn dilyn ymholiad gan aelod cadarnhawyd bod cyfnod o chwe mis i aelodau benderfynu ar ôl i ddatganiadau gael eu hanfon at aelodau cymwys. Gofynnodd Aelod pa systemau fyddai'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau nad oedd gohebiaeth ar goll, a chadarnhaodd y PSTC MacArthur fod llythyrau atgoffa'n cael eu hanfon yn rheolaidd i annog pobl i ymateb cyn y dyddiad cau.

4.9 Cadarnhaodd Cronfa Bensiwn Dyfed eu bod ar y trywydd iawn i gyrraedd y dyddiad cau o 31 Hydref 2025 ar gyfer lansio'r Dangosfwrdd Pensiynau a bod profion wedi'u cynnal. Fodd bynnag, roedd gwaith i'w wneud o hyd ynglŷn â meini prawf cyfatebol.

4.10 Gofynnodd Aelod a oedd maen prawf cenedlaethol ar gyfer paru a chadarnhawyd nad oedd meini prawf paru wedi'u gosod yn gyffredinol ar gyfer y porth. Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi pennu dyddiad 'mynd yn fyw' eto.

4.11 **PENDERFYNWYD:**

- **i) Nodi cynnwys yr adroddiad; a**
- **ii) Nodi'r rhwymedigaeth statudol a roddir ar y Rheolwr Cynllun i sicrhau bod y tri phrosiect cenedlaethol yn cael eu gweithredu fel y cyfarwyddir gan y ddeddfwriaeth.**

## 5 ADRODDIAD DIWEDDARU – CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

5.1 Cyflwynodd Beccy Marfleet adroddiad diweddaru Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, a'i ddiben oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Pensiwn Lleol am faterion cyfredol yn ymwneud â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

5.2 Nodwyd y byddai'r cofrestru awtomatig wedi'i drefnu yn digwydd ym mis Hydref 2025 ac y byddai 31 o aelodau'n cael eu hailgofrestru. Byddai staff sy'n gymwys i ymuno â'r FPS ond y tu allan i'r broses gofrestru awtomatig yn cael eu cysylltu'n unigol i roi cyfle pellach iddynt ymuno â'r cynllun.

5.3 Diolchwyd i gydweithwyr cyflogwyr am eu gwaith yn cadw nifer y ceisiadau Proses Datrys Anghydfodau Mewnol (IDRP) i'r lleiafswm gan fod gwasanaethau eraill wedi cael eu llethu â nhw, tra bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) wedi derbyn wyth yn unig hyd yma.

5.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys yr adroddiad.**

**6 ADRODDIAD DIWEDDARU – GWEINYDDWR**

6.1 Cyflwynodd Martin Morgan adroddiad y Gweinyddwr a roddodd ddiweddariad i'r Aelodau ar gynnydd sawl prosiect a oedd yn cael eu cynnal ar yr un pryd, ynghyd â darparu gwybodaeth am faterion perthnasol wrth weinyddu buddion y cynllun.

6.2 Cydnabuwyd bod agwedd pensiynau'r gwasanaeth tân yn llawer mwy cymhleth o'i gymharu â gwasanaethau cyhoeddus eraill gan arwain at lwyth gwaith llawer trymach. Diolch i Gronfa Bensiwn Dyfed am eu gwaith caled hyd yma.

6.3 Gofynnwyd faint o Ddatganiadau Gwasanaeth Rhwymedïol oedd yn parhau i fod yn weddill hyd yma a chadarnhawyd ei fod yn chwech ar hyn o bryd, ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud ag eithriadau Adran 29.

6.4 Gofynnwyd ymhellach beth oedd yr achosion cyffredin dros yr oedi wrth ymdrin ag adleoli a chadarnhawyd ei fod yn broblem yn gyffredinol wrth gael gwybodaeth gan gyn-gyflogwyr. Roedd yn rhaid prosesu'r wybodaeth a dderbyniwyd â llaw hefyd gan nad oedd system feddalwedd ar waith i ymdrin â hynny'n awtomatig. Mynegwyd pryder y gallai hyn fod â'r potensial i achosi rhwystr i adleoli i mewn i'r Gwasanaeth.

6.5 Eglurodd Martin Morgan nad oedd adleoliad arferol yn achosi problem, roedd yr oedi'n gyfan gwbl gysylltiedig â Dyfarniad McCloud ac felly unwaith y byddai hynny wedi'i ddatrys, ni fyddai trosglwyddiadau'n broblem mwyach.

6.6 Nodwyd bod y cyfleuster 'Fy Mhensiynau Ar-lein' yn cael ei uwchraddio i ganiatáu rhyngweithio gwell â thechnolegau modern, gan gynnwys defnyddio llofnodion electronig.

6.7 Dywedodd y PSTC MacArthur, er bod llawer iawn o waith wedi bod yn gysylltiedig â delio â'r ddwy her gyfreithiol, ei fod hefyd wedi bod yn fuddiol gan ei fod wedi gwella effeithlonrwydd llawer o brosesau mewnol y Gwasanaeth a byddai'r gwaith hwn yn parhau.

6.8 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys yr adroddiad.**

**7 DIWEDDARIAD HYFFORDDIANT – PROSES IDRP**

7.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur hyfforddiant i'r Aelodau ynghylch y broses IDRP.

7.2 Gofynnwyd a oedd lefelau blaenorol o ymdrin â materion cyn iddynt ddod yn anghydfod, a chadarnhaodd y PSTC MacArthur fod rhai a chyflwyno IDRP os oedd aelod yn anfodlon â'r ffordd yr oedd mater wedi cael ei drin.

7.3 Dywedodd y PSTC MacArthur fod wyth cais IDRP wedi'u gwneud hyd yn hyn, ac roedd un ohonynt wedi symud ymlaen trwy Gam 2 IDRP. Roedd yr IDRP 2 yn ymwneud â mater gyda'r rheoliadau a oedd y tu allan i reolaeth yr Awdurdod. Cadarnhawyd bod hwn yn fater cenedlaethol a gwelwyd Llywodraeth Cymru hefyd.

**8 RHEOLI RISGIAU – GWEITHREDIADAU**

8.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur ddiweddariad i'r Aelodau ar y trefniadau rheoli risg.

8.2 Archwiliwyd a thrafodwyd y risgiau gweithredol a oedd wedi'u cynnwys ar y gofrestr yn unigol yn fanwl.

8.3 Tynnwyd sylw at y risg mewn perthynas â Seiberdroseddu a chyfeiriwyd at y toriadau data cenedlaethol diweddar. Gofynnodd Aelod a ddylid gwneud addasiadau i'r sgoriau tebygolrwydd ac effaith mewn perthynas â'r risg hon, a chynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â hyn. Roedd yr aelodau'n teimlo na ddylid lleihau'r sgôr tebygolrwydd a dylai aros ar 3 gan fod ymosodiad seiber yn parhau i fod yn fygythiad credadwy; fodd bynnag, teimlwyd y dylid codi'r sgôr effaith o 3 i 4 gan y gallai effaith ymosodiad gael canlyniadau sylweddol.

8.4 **PENDERFYNWYD:**

- **i) Ystyried a chymeradwyo'r asesiad o'r risgiau gweithredol sy'n gysylltiedig â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân; a**
- **ii) Chynyddu'r sgôr effaith ar gyfer Seiberdroseddu o 3 i 4.**

**9 CYFRIF CRONFA BENSIWN 2024/25**

9.1 Rhoddodd y PSTC MacArthur ddiweddariad i Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol (LPB) ar gyfrif y gronfa bensiwn ar gyfer 2024/25.

9.2 Adolygwyd y ffigurau yn y papur a gofynnwyd a oedd unrhyw gyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu ar gyfer y cynnydd mewn rhwymedigaethau. Cadarnhaodd y PSTC MacArthur nad oedd, a bod atebolrwydd y cyflogwr ar hyn o bryd tua 32%.

9.3 Gofynnwyd sut y gwnaed y rhagdybiaethau a restrir ym mharagraff 15, a chadarnhaodd y PSTC MacArthur eu bod yn rhan o'r cyfrifon terfynol a'u bod wedi'u darparu i'r Gwasanaeth gan yr Actwariaid.

9.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cyfrifon cronfa bensiwn 2024/25; a**
**ii) Nodi amseriad yr archwiliad allanol.**

**10 BWRDD YMGYNGHORI'R CYNLLUN**

10.1 Rhoddodd y PSTC MacArthur ddiweddariad llafar i'r Aelodau ar gynnwys cyfarfod diwethaf Bwrdd Cynghori'r Cynllun (SAB).

10.2 Hysbyswyd yr aelodau fod Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac aelodau a chynrychiolwyr o Gyrff Cynrychioliadol.

10.3 Yn flaenorol, yr aelodau hynny a oedd yn eistedd ar Fwrdd Pensiwn Lleol oedd yn cyflawni rôl cynrychioli cyflogwyr, ond roedd y Cylch Gorchwyl wedi'i ddiwygio'n ddiweddar i wneud y swyddog SAB yn cael ei arwain gan ei fod yn grŵp technegol yn ymdrin â materion technegol.

10.4 Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ar 30 Medi 2025 ac fe'i cadeiriwyd gan Was Sifil. Roedd yr agenda wedi bod yn debyg i'r un a osodwyd gan y Bwrdd Pensiwn Lleol, gan gynnwys diweddariadau cyfreithiol, penderfyniadau annisgwyl, dangosfyrddau pensiwn, trefniadau i hyrwyddo'r defnydd o gynllun pensiwn fel cyflogwyr a'r prisiad nesaf.

10.5 Cai'r cynllun ei ailbrisio'n rheolaidd, ac roedd y prisiad diwethaf yn 2024. Cafodd y data ei atal ar ddyddiad penodol ac yna byddai'n cymryd cwpl o flynyddoedd i'r Actiwariaid weithio drwyddo. Yna byddai prisiad ac adolygiad wedi'u diweddaru o gyfraniadau cyflogwyr yn digwydd i sicrhau eu bod yn ddigonol i redeg y gronfa yn y dyfodol.

10.6 Mae'r SAB yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn ac roedd diweddariad gan y Byrddau Pensiwn Lleol bob amser yn cael ei roi. Roedd y cyfarfodydd hefyd yn sicrhau bod bwletinau, cylchlythyrau a materion heriol yn cael eu codi a'u trafod. Roedden nhw'n ffynhonnell amhrisiadwy o rannu gwybodaeth.

10.7 Cydnabuwyd bod bodolaeth yr SAB yn galluogi cysondeb ledled Cymru. Roedd SAB Lloegr bellach wedi symud i'r un cyfeiriad lle’r oedd aelodau bellach yn swyddogion yn hytrach na Chynghorwyr, ac roedd hyn yn caniatáu cysondeb yn genedlaethol.

## 11 MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO AT SYLW’R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

11.1 Nid oedd unrhyw faterion i'w huwchgyfeirio at sylw’r Awdurdod.

## 12 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

12.1 Cadarnhawyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 22 Ionawr 2026 am 09:30 o'r gloch.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:20